2180

# GALAR-GAN

AM

## GREW Y SCHOONER "MARGARET,"

*O Aberystwyth,*

Y rhai a gollasant eu bywydau yn ystorm y 18fed o fis Hydref, 1854, yn *Bay* Abergwaun:


SEF,

WILLIAM ARTER, o'r Borth, *Capten*
JOHN HUGHES, o'r un lle, *Mate*
DAVID ARTER, o Aberystwyth, } *Dwylaw.*
WILLIAM ARTER, o'r un lle, }

YN NGHYDAG

Amryw eraill a gollasant eu bywydau yn yr un dymhestl.

Ar y dôn a elwir "Diniweidrwydd."



1 Trwm yw'r newydd, tra mawr niwed,
Sydd i'w glywed yma 'n glir,
Angeu creulon, gelyn dynion,
Sy'n tori i lawr ar fôr a thir:

Un mil wyth cant, pum deg a phedair,
O oedran cywir Iesu cu,
Pan ddaeth oddiar y moroedd mawrion
Newyddion trymion atom ni.

2 Trwy'r unrhyw ffordd ca'dd pawb eu geni,
Hawdd yw profi ar bob bryd;
Mae mil o ffyrdd gan angeu ingol
I'n gyru i'r anfarwol fyd;
Rhai gan goed, a rhai gan greigiau,
A wneir yn ddarnau, moddau mân;
Rhai mewn dyfroedd mawr yn boddi,
A rhai yn llosgi yn y tân.

3 Y mae trigolion glanau moroedd
Yn wylo yn lluoedd yn mhob lle;
Am berthynasau a ffryndiau hawddgar,
Mae galar trwm mewn llawer tre':
Mae 'n Aberystwyth anesmwythder
Am aml lestr aeth i lawr;
O rai o honynt safiai'r dynion,
A'r lleill ga'dd fyn'd i'r eigion mawr.

4 O Droghedy yr hwyliodd *Schooner*,
Uwch y dyfnder ar y dòn,
A cheryg calch am Aberystwyth—
*Margaret* ydoedd enw hon:
*William Arter* oedd y *Capten*;
Dau fab i'r perchen gyda hyn,
A'r *Mate*; fe ga'dd y pedwar yna
Ddyoddef gwasgfa, dalfa dyn.

5 Caent ddechreu 'u mordaith yn llwyddianus,
A chysurus ar y dòn,
Gan feddwl cyrhaedd Aberystwyth,
Lle perthynai'r llestr hon;
Ond yn groes i'w holl obeithion,
Daeth ystorm greulon arnynt hwy;
Er maint yw'r galar sydd am danynt,
Yn fyw ni welir 'mo 'nynt mwy.

6 Fe godai heb gelu awel galed,
Mis Hydref, y deunawfed dydd,
O ogledd-ddwyrain chwythai 'n greulon,
Nes oeddynt oll â'u bronau 'n brudd:
Y môr yn codi i ryw uchelder,
Nes claddu y llestr weithiau 'n glir,
A'r morwyr oedd heb un ymwared;
O dyma galed, galed gur!

X295247732

7 'Doedd yno neb i'w cynorthwyo,
Er iddynt wylo 'n wael eu gwedd;
Y môr â'i donau mawr yn berwi,
A'r angeu glâs yn 'nelu ei glêdd.
A'r *Schooner Margaret* suddai ar unwaith,
Gerllaw i Drefdraeth aeth i lawr,
A'r pedwar dyn mewn gwir brysurdeb
Ga'dd fyn'd i'r trag'wyddoldeb mawr!

8 Einioes dyn sy 'n ansertenol
Ar y tir ac ar y môr;
Dylem oll weddio beunydd
Yn daer wrth orsedd Arglwydd Iôr,
Am iddo 'n gwneyd yn buraidd barod,
Pawb yn hynod drosto ei hun;
Can 's yn yr awr nad ym yn gwybod
Y mae 'n dyfod Mab y dyn.

9 Y gwragedd gweddwon sydd yn wylo
Am eu gwyr yn wael eu gwedd;
Plant amddifaid dd'wedant hefyd,
"Ein tadau aeth i'r dyfrllyd fedd!"
A thadau a mamau yn wael eu cwynion,
Am eu meibion y maent hwy,
Sydd wedi dyoddef angeu caled;
Yn fyw ni chant eu gweled mwy.

10 Yn Aberystwyth mae galaru,
A'r Borth, Llanrhystid, a Llannon:
Y mae ugeiniau yn wylo'r dagrau
Waith saethau'r angeu ar y don:
Yn Aberaeron a'r Ceinewydd,
Llangranog, Aberporth yn wir,
Abergwaun, ac Aberteifi,
A Threfdraeth sydd mewn c'ledi clir.

11 Y *Queen of Trumps* o Aberystwyth
Yn ddarnau'r aeth, ond *safiai*'r *crew*;
Ar ddarnau o'r llong, trwy fawr galedi,
Fe ddaeth y tri i fyny 'n fyw;
Duw roddodd iddynt waredigaeth,
Fel o safn marwolaeth drist;
Boed iddynt guro am drugaredd,
Yn daer wrth orsedd Iesu Grist.

12 A'r Capten *Henry Jenkins* hawddgar,
Angeu 'n gynnar ddaeth i'w gwrdd;
Moryn mawr a ddarfu godi,
Nes ei daflu dros y bwrdd!

Mae'r weddw a'r amddifaid mwynaidd
  Yn wylo yn waelaidd nos a dydd,
Waith colli tad a phriod anwyl,
  Y maent yn awr mewn profiad prudd.

13 Mae hanes hefyd i fod *Schooner*
  Wedi colli o Lannon,
Gerllaw i Lerpwl, fel y d'wedant,
  *Vigilant* oedd enw hon;
A'r *crew* oedd arni wedi boddi
  Trist yw mynegi hyn yn awr;
D'wedir i fod gwraig y *Capten*
  Yno yn y ddamwain fawr.

14 Er iddynt golli eu bywydau,
  Mewn oer foddau hyn a fu,
Gobeithio eu bod hwy heddyw 'n nghwm'ni
  Yr Oen fu farw ar Galfari:
Boed i'w preth'nasau a'u ffryndiau hawddgar
  Roi heibio eu galar hyn o bryd,
A cheisio heddwch Iesu grasol
  Cyn myned i'r anfarwol fyd.

15 Fe ddylem ninau bawb trwy'r gwledydd
  Weddio ar yr Arglwydd Iôr
Na chlywon byth am fath ddamweiniau
  Ar y tir nac ar y môr:
Ond ceisiwn fod yn buraidd barod
  I gyfarfod Crist ein pen,
I ganu iddo mewn gogoniant,
  Felus foliant byth. Amen.

D. JONES, *Llanybydder*.

*D. Jenkins, Argraffydd, Aberystwyth.*